**Dinas a Sir Abertawe**

# Nodiadau'r Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 19 Mehefin 2018 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C A Holley | P R Hood-Williams | S M Jones |
| J W Jones | | |

**Aelodau Cyfetholedig(wyr)**
T Beddow

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Mark Campisi | Prif Swyddog - Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu |
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Deborah Reed | Prif Swyddog Adnoddau |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): G J Tanner

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Datgeliadau o gysylltiadau - Chris Holley

2 **I gadarnhau cynullydd y Panel**

Cadarnhawyd Peter Black fel Cynullydd y panel.

3 **Nodiadau cyfarfod 16 Mai 2018**

Cytunodd y panel ar y nodiadau fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

4 **Cwestiynau'r Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod.

5 **Adroddiad Ymchwiliad a Chynllun Gwella'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (Abertawe Ganolog)**

Cyflwynodd Alex Williams, Pennaeth Gwasanaethau i Oedolion, yr adroddiad. Roedd Mark Campisi a Deborah Reed yn bresennol i ateb cwestiynau.
ar gyfer yr eitem hon.

Pwyntiau trafod:

- Yn gyffredinol, roedd canlyniad yr arolygiad yn dda ac yn gadarnhaol.
- Mae'r adroddiad i'w weld mwy fel awdit nag arolygiad.
- Yn dilyn yr arolygiad, lluniodd Arolygiaeth Gofal Cymru gynllun gwella.
- Mae'r AGC ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi dychwelyd ers yr arolygiad.
- Nid yw'n glir yr hyn yr oedd AGC neu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn ceisio ei gyflawni / beth oedd nod yr arolygiad.
- Nododd y panel 3 gwelliant yr oedd eu hangen yn dilyn yr arolygiad a chawsant ddiweddariad ar gynnydd gan y swyddogion - cofnodi cynigion o eiriolaeth; mewnbwn y trydydd sector i gefnogi atal ac adfer a chofnodi gwerthusiadau staff ac anghenion hyfforddi.

Camau Gweithredu:

- Sesiwn friffio gwreiddiol yr arolygiad i gael ei anfon at aelodau'r panel er gwybodaeth.

6 **Adolygiad o'r flwyddyn 2017/18**

Adolygodd aelodau'r panel eu blwyddyn ar Banel Gwasanaethau i Oedolion ac atebwyd 4 cwestiwn.

1. Beth aeth yn dda?

- Mae rôl y panel wedi gwella - mae'n fwy ffocysedig ac ynghlwm
- Mae perthynas llawer mwy adeiladol rhwng y swyddogion a'r panel.
- Mae craffu cyn-penderfynu wedi gweithio'n dda. Mae wedi caniatáu'r panel i ofyn cwestiynau anodd.
- Mae gan y panel ddealltwriaeth lawer gwell o sut y llunnir y dyraniad cyllidebol a'r cyfyngiadau.
- Ystyried adolygiadau comisiynu. Mae hyn wedi bod yn llwyddiant gan ei fod wedi cyflwyno argymelliadau i'r Cabinet.

2. Beth nad oedd wedi gweithio cystal?

- Diweddariadau ar Gydlynu Ardaloedd Lleol - Nid yw'r panel yn deall yr hyn sydd yn mynd yn ei flaen. Mae dangosyddion perfformiad hyn yn parhau i fod yn waith ar y gweill ac mae hyn yn broblem.
- Nid yw'r panel yn llwyr ddeall yr hyn y mae Bae'r Gorllewin yn ei wneud a'r hyn mae'n ei gyflawni.
- Rôl cwestiynau gan y cyhoedd. Mae hyn yn anodd i'r swyddogion ymdrin â hwy yn ystod y cyfarfod. Mae angen bod yn glir am y disgwyliadau. Nid yw'r panel

yn ystyried mai hyn yw'r ffordd orau i gysylltu â'r cyhoedd. Mae angen i'r panel ystyried ffyrdd eraill i gysylltu â'r cyhoedd.

3. A yw rhaglen waith y panel wedi canolbwyntio ar y pethau iawn?

- Treuliwyd y llynedd yn canolbwyntio ar y rhaglen wella. Eleni bydd yr agenda yn canolbwyntio ar faterion penodol. Byddai'n werthfawr ychwanegu eitem ar y cynllun gwella i'r rhaglen waith tuag at ddiwedd y flwyddyn hon.
- Teimlai'r panel nad oes digon o adnoddau ar gael ar gyfer craffu.

4. Beth yw'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu a fydd yn ein helpu gyda chraffu ar Wasanaethau i Oedolion yn y dyfodol?

- Mae'r panel wedi dysgu llawer o'r adolygiadau comisiynu.
- Mae'r panel wedi dysgu i ba gyfeiriad y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn symud o ran y broses gyllidebol.

7 **Amserlen Rhaglen Waith 2018/19**

Ystyriodd y panel y rhaglen waith.

Camau Gweithredu:
- Diweddariad i'r cynllun gwella i'w ychwanegu at y rhaglen waith yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Gwahoddiad i'w anfon i gynghorwyr anweithredol sydd â diddordeb mewn bod yn aelod o'r Panel Gwasanaethau i Oedolion.

8 **Llythyrau**

Llythyrau a dderbyniwyd ac a ystyriwyd gan y panel.

9 **Ar gyfer eitem o wybodaeth**

Nododd y panel y cylch gorchwyl.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.45pm